



Cyfarfod Blynyddol 2023

Adroddiad y Trysorydd

(elusen rhif 1190243)

Mae'r adroddiad yma i'w ddarllen ar y cyd â'r Datganiad o Gyfrifon ar gyfer 2022-23.

Aelodaeth: Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd £25 o dâl aelodaeth gan 259 aelod ynghyd ag £20 o daliad hwyr ar gyfer 2022. Yn ogystal cafwyd taliadau o £1195 gan rai oedd heb gynyddu eu harcheb banc i £25 ac sydd felly ddim yn gymwys i dderbyn aelodaeth o'r Clwb. Mae rhain yn cynnwys 34 yn talu £20, 30 yn talu £15 a 7 yn talu symiau llai na hynny.

Roedd y taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig yn £22.25 yr aelod.

Cinio blynyddol 2022: Cafwyd derbyniadau o £1252 ar gyfer cinio blynyddol 2022 a thaliadau o £1290 gan arwain at golled bach o £38. Derbyniwyd £490 at ginio blynyddol 2023; bydd y taliad yn ei erbyn i'w weld yng nghyfrifon 2023-24.

Teithiau: Derbyniwyd £2120 at daith Roybridge ym mis Mai a thalwyd £2127 (sef colled bach o £7). Daeth rhai blaendaliadau am daith Crianlarich yn Chwefror 2024 i law cyn i'r cyfrifon gau; bydd y taliad yn eu herbyn i'w weld yng nghyfrifon 2023-24.

Incwm arall: Cafwyd llog o £48.78 (cyfrif cadw) a rhoddion gan (gyn)aelodau o £70.

Gwariant arall: Daeth costau rhedeg y Clwb (costau banc, gweinyddol a gwefan) i £736.81 am y flwyddyn. Ar ben hynny talwyd £150 i ymuno â'r Bartneriaeth Awyr Agored a £100 am logi pabell y Cymdeithasau yn yr Eisteddfod.

Cronfeydd: Mae gan y Clwb £9463.24 yn y banc. Mae hyn yn cynnwys Cronfa Goffa Gareth Pierce (£881.41), blaendaliadau am ginio blynyddol 2023 a thaith Crianlarich (£3500) a chronfa gyffredinol o £5081.83. Mae'r gronfa gyffredinol wedi cynyddu o'r hyn oedd yr adeg yma y llynedd oherwydd y codiad yn y tâl aelodaeth a'r cynnydd canlynol yn nifer y caredigion.

Mae'r Clwb yn cadw arian wrth gefn yn y gronfa gyffredinol er mwyn sicrhau llif arian digonol (gan fod rhaid weithiau talu ymlaen llaw am lety ar deithiau preswyl cyn casglu arian gan y rhai sy'n mynychu) ac hefyd i warchod yn erbyn gwariant annisgwyl.

Tâl aelodaeth: Aeth tâl aelodaeth y Clwb i fyny i £25 ar 1 Ionawr 2023. Mae'r taliad i'r Cyngor Mynydda Prydeinig wedi ei osod ar £23.90 yr aelod ar gyfer 2024. Mae'r pwyllgor yn argymhell cadw'r tâl aelodaeth ar £25 am flwyddyn arall.

Dilys Phillips
31 Hydref 2023